Canllawiau ar Reolaeth, Adfer a Chreu

Rhostir Perthi Bach

Bwriedir i'r ddalen arfer da hon fod yn arweiniad sylfaenol ar gyfer perchnogion tir a rheolwyr tir i gadw a hyrwyddo gwerth bioamrywiaeth Rhostir Perthi Bach a helpu i sicrhau eu dyfodol. Dynodwyd Rhostir Perthi Bach fel cynefin blaenoriaeth yng Nghynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y Deyrnas Gyfunol a hefyd y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol ar gyfer Blaenau Gwent gan y bu gostyngiad difrifol yn ei niferoedd yn genedlaethol ac yn lleol.

Yn syml, mae **bioamrywiaeth** yn golygu 'popeth byw'. Mae'n cyfeirio at amrywiaeth cyfoethog y planhigion ac anifeiliaid gwyllt o'n gwmpas ynghyd â'r cynefinoedd sy'n eu cefnogi.

Mae Rhywogaethau Blaenoriaeth y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol yn gysylltiedig gyda'r Cynefin hwn yn cynnwys:

Ystlum Pipistrelle	Gwyfyn glaswellt
Gylfinir Ewropeaidd	Pili pala brith y gors
Petrisen lwyd	Gwyfyn arian
Troellwr	Gwyfyn hydref
Grugiar goch	Gwyfyn tonnog
Ehedydd	Gwyfyn carped dau-sbotyn stribedig
Ehedydd y coed	Gwyfyn dryslyd
Madfall cribog mawr	Gwas y neidr hardd
Gwiber	Gwas y neidr cylch aur
Gwyfyn anghyson	Mursen y de
Gwyfyn melyn	Teim gwyllt bach
Gwyfyn llwyd	

© Paul Glendell-EN

Grug y mêl

Disgrifiad Cynefin

Mae Rhostir Perthi Bach yn gysylltiedig â phriddoedd asidig tenau a gwael mewn maethion ac fe'i nodweddir gan berthi o deulu'r grug. Mae tri rhywogaeth o rug yn gyffredin – grug honos, grug lledlwyd a grug y mêl, yn aml yn gysylltiedig gydag amodau gwlyb.

Mae gan wir rostir tua 25% o orchudd, er y caiff y gair 'rhostir' yn aml ei ddefnyddio i ardaloedd o lai na 25% grug ac ardaloedd sy'n cefnogi cymunedau eraill megis glaswellt asid, ysgwrfa, coetir, eithin a rhedyn.

Rhennir rhostir yn rostir 'ucheldir' yn digwydd ar bridd mawnog dros 300m, a rhostir isel yn digwydd ar bridd yn deillio o dywod a gro islaw 300m. Mae'r canllawiau hyn yn cynnwys y ddwy gymuned.

Ffactorau yn Effeithio ar Gynefin

- Colli a darnio cynefin.
- Coedwigo ucheldir, yn bennaf gyda chonifferau.
- Draenio ardaloedd ucheldir yn aml i wella pori.
- Diffyg rheolaeth briodol – gorbori yn arwain at ddisodli grug gan laswelltau.
- Llosgi rhostir.
- Bygythiadau o ddatblygiadau megis piblinellau, ffermydd gwynt a pheilonau.
- Pwysau hamdden yn achosi erydu mawndir ac ymyrryd ar y gynefin.

© Peter Wakely-EN

Colli rhostir grug yn dilyn gorbori

© Peter Wakely EN

Grug yn marw fel canlyniad i gynnydd mewn lefelau dŵr

Arfer da

Diogelu, cynnal a hyrwyddo unrhyw ardaloedd o Rostir Perthi Bach drwy:

- Cynnal y tyfiant drwy bori ysgafn gyda gwartheg, ceffylau neu ddefaid heb fod yn fwy na 0.05UDA/ha/bl. Osgoi pori rhwng Hydref a Mawrth ac osgoi gorbori neu danbori ar rannau drwy fugeilio ar safleoedd mawr.

- Rheoli unrhyw ysgwrfa neu frwyn ymledol. Medrir tynnu planhigion ifanc gyda llaw, ond bydd angen torri coed mwy i lefel y ddaear a thrin y bonion gyda chwynladdwr yn syth ar ôl eu torri i atal aildyfiant. Rheoli darnau dwys o frwyn ymledol drwy ddefnyddio cyfuniad o dorri a phori rhwng Medi a Mawrth.

- Gall torri ardaloedd bach o rostir wneud yn lle pori mewn rhai ardaloedd. Mae'n rhaid i'r ddaear fod yn wastad a heb gerrig mawr a bonion coed. Drwy dorri mewn cylch, medrir creu mosaig o dyfiant o wahanol oed. Dylid symud toriadau, yn ddelfrydol gyda defnydd peiriant medi porfa a threlar biswail neu gyda chribyn. Bydd hyn yn atal y deunydd a dorrwyd rhag atal egin grug. Mae'r darnau grug a gasglwyd, os cânt eu medi ddiwedd Tachwedd/Rhagfyr pan fo'r hadau yn aeddfed, hefyd yn rhoi ffynhonnell hadau ar gyfer creu rhostir mewn man arall.

- Gall rhedyn yn aml ddisodli cynefinoedd pwysig megis rhostir. Medrir ei reoli drwy ei wasgu/malu/torri. Am y canlyniadau gorau dylid rholio/gwasgu/torri rhedyn ddwywaith y flwyddyn ym Mai/Mehefin ac eto ym mis Gorffennaf/Awst. Medrir sicrhau gostyngiad sylweddol mewn 5 mlynedd.

- Rheoli unrhyw ysgwrfa ymledol i gynnal yr amodau iach a ffafrir gan rostir. Yn neilltuol, mae hyn yn weithredol i fedw a phinwydd gan fod rhain yn bwrw cysgod ar rywogaethau grug. Cadwer peth ysgwrfa neu orchudd coed ar ardaloedd mwy o rostir dros 5ha mewn maint fel safleoedd nythu a physt canu ar gyfer adar. Mae rhywogaethau addas yn cynnwys eithin, banadl a derw gan fod y rhain yn werthfawr ar gyfer bywyd gwyllt. Medrir tynnu planhigion allan gyda llaw ond bydd angen torri coed mwy i lefel y ddaear a bydd angen trin bonion yn syth ar ôl eu torri gyda phlaladdwr addas i atal aildyfu.

- Rheolwch ardaloedd presennol o eithin a banadl ar gyfer eu gwerth bywyd gwyllt drwy roi perthi yn eu camau iau. Yn ddelfrydol, coedlannwch ar gylch 15 mlynedd, pumed rhan bob 3 blynedd i roi amrediad o wahanol oedrannau.

© Peter Wakely-EN

Ymlediad bedw yn niweidio cynefin rhostir

- Rheoli ardaloedd eraill o ysgwrfa a choetir drwy arallgyfeirio eu strwythur. Medrid torri pumed ran bob 5 mlynedd ar sail cylch a chaniatáu i'r bonion goedlannu. Cofiwch, os oes gwningod neu dda byw yn bresennol, gall fod angen diogelu perthi a goedlannwyd drwy ffensio dros dro.

Ymestyn ardaloedd o Rostir Perthi Bach drwy: Sefydlu Rhostir ar Safleoedd Diraddiedig

Codi Tywyrch

Mae'n well gwneud hyn ar ardaloedd bach lle caiff tywyrch eu torri, symud rhedyn, sbwriel, llwydni dail, twmpathau glaswellt a maethion i ddangos y banciau had grug. Ceir y canlyniadau gorau pan gaiff y lleiaf oll o'r pridd mwyn ei symud gyda'r tywyrch.

Palu â pheiriant

Dylid gwneud hyn ar ardaloedd a fu â gorchudd grug yn y gorffennol. Caiff twmpathau o wair, rhedyn, sbwriel a llwydni dail eu torri a dangos hadau grug.

Adfer o Ardaloedd Coedwigoedd

Mae grug yn aml ar gael mewn coedwigoedd yn ystod llwybrau a rhwystrau tân a lleoedd arall lle nad oes gormod o gysgod. Os yw cylch cnwd coed yn llai na 60 mlynedd, mae eginiad o fanc hadau o rug yn dal yn bosibl. Yn aml, mae'r ymyriad a achosir gan symud coed yn ddigon i ddod ag unrhyw fanc hadau hyfyw i'r amlwg, er y gall fod angen palu â pheiriant i chwalu'r nodwyddau conwydd a all atal eginiad grug.

© Peter Wakely-EN

Rhostir yn dod i'r amlwg ar ôl symud pinwydd

Hamdden o Dir Glas wedi ei Wella

Ar ardaloedd lle cafodd rhostir ei wella'n amaethyddol i gefnogi tir glas mwy cynhyrchiol, gall hadau grug fod ar ôl yn y pridd. Cyn belled na ddefnyddir gwrtaith, dros nifer o flynyddoedd gall toriadau ostwng y statws maethion a phalu â pheiriant yn dilyn hyn, ddangos unrhyw hadau grug yn y banc hadau. Fel arall medrai tynnu'r tywyrch a'r pridd uchaf hefyd gyflawni'r amcanion hyn.

Creu Rhostir ar Safleoedd Gwneuthuredig

Dylid cynnal prawf ph a ffrwythlondeb tir yn gyntaf. Yn ddelfrydol, dylai'r pH fod yn asidig a ffrwythlondeb pridd yn isel i sicrhau cyfradd lwyddiant da.

Tywyrch Rhostir

Gall tywyrch o dyfiant rhostir fod ar gael o rostiroedd presennol fel rhan o raglen rheolaeth i adfywio grug drwy dynnu tywyrch i ddangos y banc hadau. Dylid torri tywyrch yn yr Hydref (Hydref-Tachwedd) neu ddechrau'r Gwanwyn (Chwefror/Mawrth). Dylid torri tywyrch i ddyfnder y pridd mwynol, fel arfer tua 15-20cm, i'w hatal rhag briwsioni a thorri. Dylai'r safle lle eir â'r tywyrch fod mor debyg ag sy'n bosibl i'r safle lle tynnir y tywyrch ohono.

Pridd Uchaf

Medrir defnyddio pridd uchaf o rostir, fel tywyrch, o safleoedd addas a rhoi ffynhonnell dda o ddeunydd megis hadau a darnau o wreiddiau. Fel arfer, defnyddir pladur ffustio i dorri'r tyfiant. Medrir wedyn ddosbarthu'r pridd uchaf gyda chwalwr dom i ddyfnder o 2-3cm.

Sbwriel Grug

Medrir casglu sbwriel gyda llaw neu drwy ddefnyddio casglwr sugno. Dylid defnyddio rhannau hŷn o rug i ddechrau gan y bydd ganddynt haen ddyfnach o sbwriel. Yr amser rhwyddaf i gasglu yw ar ôl torri'r grug ym mis Tachwedd/Rhagfyr. Medrir wedyn ddefnyddio'r sbwriel yn defnyddio hydrohadydd, chwythydd tomwellt, neu ei hadu gyda llaw. Yn fras, dylid ystyried 1,000-1,500 cg o sbwriel i greu 1ha o rostir.

Toriadau gyda hadau

Drwy dorri grug yn y cyfnod Tachwedd-Rhagfyr fel rhan o reolaeth rhostir presennol, mae'n bosibl casglu toriadau gyda chapsiwlau hadau aeddfed. Dylech hefyd gasglu rhannau tyfiant aeddfed y planhigion. Medrir defnyddio hyn yn defnyddio peiriant cynaeafu porfa neu ei ffustio a'i gasglu gyda beliwr.

Dylid gwasgaru'r toriadau cyn gynted ag sydd bosibl ar y safle newydd. Medrid gwasgaru'r deunydd gyda chwalwr dom neu gyda llaw. Os y rhoddir ar ddaear foel, dylai'r toriadau gael eu gorchuddio'n ysgafn gyda thocion coedwigaeth (bedw os oes modd) i atal erydu.

Defnydd rhywogaeth cymar

Caiff glaswellt cymar yn aml ei argymell i atal erydu a sefydlogi swbstrad, yn arbennig ar ardaloedd moel. Medrir casglu hadau o ardaloedd lleol o dir glas asid yn defnyddio peiriant cynaeafu porfa neu beiriant torri a pheiriant belio, a'i wasgaru gyda chwalwr dom neu law. Mae hyn yn sicrhau y caiff y coetir newydd ei greu gyda rhywogaethau sy'n gydnaws â'r rhostiroedd presennol. Eto, dylid defnyddio torion coedwigaeth i orchuddio'r ardaloedd a hedwyd i rwystro erydid.

© Paul Glendell-EN

Casglu hadau tir glas ar rostir

Llosgi

Peidiwch llosgi llethri serth lle mae risg erydu, llethrau marian, safleoedd uchel tua 600m neu 2,000 tr ac ardaloedd mwyaf o rug moel, gan eu bod yn llosgi'n rhy gyflym. Peidiwch llosgi'n agos at goetir, ysgwrfa a gwrychoedd gan fod ardaloedd o'r fath yn werthfawr ynddynt eu hunain. Medrid llosgi rhannau mawr o rostir porffor unffurf i annog grug i adfywio ond dylid gofyn am gyngor yn gyntaf.

Peidiwch gwneud unrhyw un o'r pethau dilynol heb ofyn am gyngor pellach yn gyntaf:

- Llosgi Rhostir Perthi bach sy'n gyfoethog mewn bywyd planhigion a phryfed a sensitif i sychu allan.
- Aredig, meithrin neu ail-hadu gyda chymysgedd had amhriodol, rolio neu lyfnu gyda chadwyn.
- Gosod unrhyw systemau draenio newydd, clirio unrhyw ffosydd, neu effeithio ar ddraeniad naturiol.
- Gosod unrhyw chwynladdwyr neu blaladdwyr o fewn 10m o Rostir Perthi Bach os nad yn trin chwyn hysbysadwy. Bydd angen caniatâd Asiantaeth yr Amgylchedd ar ddefnyddio plaladdwyr ar neu'n agos at ddŵr.
- Dodi unrhyw wrtaith anorganig neu organig megis dom fferm, biswail, llaid carthion, dom ieir neu bysg mâl o fewn 10m o Rostir Perthi Bach..
- Gosod unrhyw galch, basig slag, gwymon calchedig neu unrhyw ddefnyddiau eraill i newid asidrwydd y pridd.
- Storio unrhyw dom, gwastraff fferm neu unrhyw wastraff ar unrhyw ardal o Rostir Perthi Bach.
- Torri mawn.
- Cynnal unrhyw fwydo ychwanegol neu osod unrhyw gafnau dyfrio.

Cyfraddau Stocio

Dynodwyd y trosiannau dilynol dan y cynllun Tir Gofal a gaiff ei redeg gan Gyngor Cefn Gwlad a bydd yn weithredol pan yn cyfrif cyfraddau stocio:

	Unedau Bywyd Gwyllt (UBG)
1 Buwch Laeth	= 1.0 UBG
1 Buwch Eidion (llai na 24 mis)	= 0.6 UBG
1 Buwch Sugno	= 1.0 UBG
1 Mamog (gyda neu heb oen)	= 0.15UBG
1 Ceffyl	= 1.0 UBG

Cyngor Pellach

Partneriaeth Bioamrywiaeth Blaenau Gwent
Rhoi cyngor ar adfer cynefinoedd a rhywogaethau blaenoriaeth o fewn y Fwrdeisdref Sirol.
Ffôn: 01495 355702

Cyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent
Gweinyddu'r Cynllun Grant Gweithredu Bioamrywiaeth sy'n cynnig grantiau bychan hyd at £2,000 i berchnogion tir a grwpiau cymunedol ar gyfer prosiectau bioamrywiaeth.
Ffôn: 01495 356070

Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCW)
Gweinyddu Cynllun Amaeth-Amgylchedd Tir Gofal lle mae grantiau ar gael ar gyfer amrediad eang o waith rheolaeth cynefin ar ffermydd.
Ffôn: 02920 772400

Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Gweinyddu caniatâd chwynladdwyr ger llwybrau dŵr **Ffôn: 08708 506506** ac yn rhedeg y Llinell Arbennig Llygredd **Ffôn: 0800 807060**

Dalier sylw: mae'r argymhellion o fewn y ddalen hon ar gyfer arweiniad yn unig. Oherwydd cymhlethdod coetiroedd unigol a'r rhyngweithiau o'u mewn, fe'ch cynghorir i geisio cyngor arbenigol gan sefydliadau perthnasol o'r camau cynnar. Medrir hefyd lawrlwytho'r ddalen hon o wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Blaenau Gwent 'Gwe Bywyd'. Medrir cyrchu hyn drwy www.blaenau-gwent.gov.uk